



Technoleg Glyfar, Gwnaethpwyd i Ofalu

## Emfit

Monitor Symudiad Cysgu

Canllaw  
Rhaglennu v1.0



Mae'r Emfit yn system monitro symudiad cysgu gyda'r gallu i yrru neges radio yn ddiwifr.

Mae'r system yma yn monitro ag yn dadansoddi symudiad i godi sylw os fydd symudiad afreolaidd wedi cael eu canfod. Mae'r Emfit yn cynnwys synhwyrdd gwely, uned rheoli a throsglwyddydd Cair. Pan mae'r synhwyrdd yn cael eu hactifadu, mae'n rhoi rhybudd o'r digwyddiad a gyrru signal radio i'r ddyfais derbyn.


## Paratoi'r Emfit

Mae'r canllaw yma yn atodol i lawlyfr y gwneuthurwr. Sicrhewch eich bod yn darllen y ddwy ddogfen cyn gosod a defnyddio'r Emfit.

Mae'r Emfit yn cynnwys prif reolwr, trosglwyddydd Cair, pad gwely, cyflenwad pŵer ac offer gosod. I gychwyn, cysylltwch y cyflenwad pŵer, trosglwyddydd a'r pad/synhwyrdd i'r brif uned. Unwaith mae pob dim wedi cysylltu, mae'n bosib troi'r uned ymlaen wrth bwysu lawr y botwm bach oren tan fod bîp yn cael eu clywed ac mae'r LED glas yn fflachio. I troi'r Emfit i ffwrdd, pwyswch lawr y botwm oren tan fod y bîp yn swnio.

**Nodyn:** Pan mae'r uned ymlaen, mi fydd yna bîp rhybuddio parhaol os nad yw'r pad gwely wedi cysylltu.

**Pwysig:** Er bod y ddyfais yn gallu gweithio efo cyflenwad batri, rydym yn argymhell fod y ddyfais o hyd wedi cysylltu i'r cyflenwad pŵer.



## Lleoli'r Pad Gwely Emfit

Mae yna nifer o ffyrdd i osod y pad gwely.

Mae'r rhain wedi eu nodi ar y pad, ac mae rhagor o wybodaeth o fewn y llawlyfr defnyddiwr

## Gosodiadau Sensitifrwydd

Mae yna nifer o osodiadau sensitifrwydd a ellir newid efo'r swîts mewnol. Cyfeiriwch at lawlyfr y defnyddiwr am fwy o wybodaeth.

## Profi'r Emfit

I brofi'r Emfit, sicrhewch fod y ddyfais wedi troi ymlaen a bod y pad gwely a'r trosglwyddydd wedi eu cysylltu i'r brif uned. Tynnwch y cefn i ffwrdd o'r brif uned yn ofalus. Rhowch bwysau ar y synhwyrdd gwely am tua 60 eiliad, mi fydd y ddau LED yn fflachio yn ystod y cyfnod hwn, unwaith mae'r LEDs yn fflachio ar yr un adeg, fedrwnch nawr efelychu symudiad ar draws y pad gwely wrth ddefnyddio eich bysedd am tua 13 eiliad. Mi fydd y seinydd yn swnio i gadarnhau fod y prawf wedi bod yn llwyddiannus.

## Aseinio'r Emfit i'r Notifier neu system Teleofal arall

1. Sicrhewch fod yr Emfit ymlaen.
2. Paratowch y Notifier/system arall wrth fynd i fodd cofrestru.
3. Actifadu'r Emfit wrth ddefnyddio clip papur/offer addas i actifadu'r botwm profi ar y brif ddyfais.
4. Mi ddylai'r Notifier/system arall cydnabod y ddyfais newydd.

## Manylebau

Cydnawsedd	Protocolau Amrywiol
Amledd Gweithredu	869 MHz
Maint	Uned - H127 x L196 x D34 mm Synhwyrdd - H580 x L1430mm
Mewnbwn	Cyflenwad pŵer, Aux (Addasydd Cair), Synhwyrdd Gwely
Gosod	Wal, Pen Gwely, Bwrdd
Cyflenwad Pŵer	5V DC efo cyflenwad pŵer allanol a batri wrth gefn
Pellter Gweithio	Hyd at 600m
Tymheredd Gweithredu	10-40°C
Gwarant	24 mis

### Amnewid Batri

Mae'n bwysig i ddefnyddio dau fatri 'Energizer L91 Ultimate Lithium AA' (M115-110)' i sicrhau'r oes batri fwyaf a bod y larwm cefndir batri isel yn gywir. Sylwch ar y marciau yn adran y batri a sicrhau bod y batris yn cael eu mewnosod yn gywir.

### Datganiad Cydymffurfiaeth:

Trwy hyn, mae Cair (UK) Ltd yn datgan bod y math o offer radio, Cair Emfit yn cydymffurfio â Chyfarwyddeb 2014/53/EU

### Pacio ar gyfer cludo

Rhaid i'r offer sy'n cynnwys celloedd neu fatris gael eu pacio mewn pecynnau anhyblyg cryf a rhaid eu sicrhau rhag symud o fewn y deunydd pacio allanol i atal actifadu damweiniol. Rhaid i enw a chyfeiriad yr anfonwr fod yn weladwy yn glir ar y pecyn allanol.

### Safety

Peidiwch â datgymalu na newid yr uned. Peidiwch ag agor y casin heb law i newid y batris.

### Gwaredu

Dylid cael gwared ar yr holl wastraff electronig yn unol â'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf. Rhaid ei waredu o fewn y llif gwastraff trydanol ac electronig a pheidio â chael gwared arno yn y llif gwastraff arferol. Mae ailgylchu cynhyrchion gwastraff trydanol yn helpu i warchod adnoddau naturiol ac atal effeithiau andwyol ar yr amgylchedd.

